OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1395

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005

### Enwi a chymhwyso

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2005.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**); a

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2002 a'r Atodlenni iddi.

### Y diwrnod penodedig

**4.** 31 Mai 2005 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

### Darpariaethau Trosiannol

**5.**—(1) Ni fydd y diwygiadau a wnaed gan baragraff 3 o Atodlen 4 yn gymwys o ran derbyn plant mewn blwyddyn ysgol yn gynharach na 2007-2008.

(2) Er bod paragraff 10 a 11 o Atodlen 4 yn dod i rym, nid yw'r diwygiadau i adrannau 96 a 97 o Ddeddf 1998 yn effeithiol o ran penderfyniad a wnaed gan awdurdod addysg lleol cyn 31 Mai 2005 sy'n cyfarwyddo ysgol benodol i dderbyn disgybl.

(3) Os bydd rhiant wedi rhoi hysbysiad o apêl yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 24 i Deddf 1998 cyn 31 Mai 2005 —

(a) mae adrannau 84(6) a 94 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 24 iddi yn parhau i fod yn effeithiol ynglyn â'r apêl honno fel pe bai adran 50, paragraffau 2 a 8 o Atodlen 4 a diddymiad Atodlen 24 i Ddeddf 1998 heb ddod i rym; a

(b) mae adran 25(5)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974(**2**) yn parhau i fod yn effeithiol fel pe bai paragraff 2(a) o Atodlen 21 heb ddod i rym.

(4) Os bydd corff llywodraethu wedi rhoi hysbysiad o apêl yn unol â pharagraff 5 o Atodlen 25 i Ddeddf 1998 cyn 31 Mai 2005 —

(**1**) 1998 p.31.
(**2**) 1974 p.7.

(a) mae adrannau 84(6), 87 a 95 o Ddeddf 1998 ac Atodlen 25 iddi yn parhau i fod yn effeithiol ynglyn â'r apêl honno fel pe bai paragraffau 2 a 9 o Atodlen 4 a diddymiad Atodlen 25 i Ddeddf 1998 heb ddod i rym; a

(b) mae adran 25(5)(c) of Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 yn parhau i fod yn effeithiol fel pe bai paragraff 2(a) o Atodlen 21 heb ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
24 Mai 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.